Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llwybrau Coedwigoedd
Forest Trails

# Ardal of Harddwch Naturiol Eithriadol
# Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
# Clwydian Range and Dee Valley
## Area of Outstanding Natural Beauty



www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty



# Crwydro a Mwynhau....

**Cyfres o lwybrau cerdded gwych yng nghoedwigoedd a pharciau gwledig Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.**

Mae'r holl lwybrau yn dechrau o faes parcio cyhoeddus fel y gwelwch ar y mapiau. Gallwch greu llwybrau hirach trwy gyfuno dau lwybr neu fwy, neu gwblhau'r teithiau cylchol i'r naill gyfeiriad neu'r llall i weld golygfa wahanol. Mae'n bosibl gwneud rhannau o rai llwybrau fel llwybrau llinellol hefyd.

Mae rhywbeth i bawb yma yn y baradwys hon i gerddwyr - tro hygyrch ysgafn, llwybrau byr pleserus, llwybrau hirach bywiog a dringfeydd syfrdanol i dop cefnau.





# Explore and Enjoy....

**A series of great walks in the forests and country parks of the Clwydian Range and Dee Valley Area of Outstanding Natural Beauty (AONB).**

All walks start from a public car park as shown on the maps. You can create longer routes by combining two or more walks, or complete the circular walks in either direction for a change of scenery. Sections of some walks can also be done as linear walks.

With a gentle accessible stroll, pleasant short walks, exhilarating longer routes and breath-taking ridge top climbs, there is something for everyone in this walker's paradise.






# Coed Moel Famau



Not all the walks shown on the maps are on Natural Resources Wales owned land. Please follow Public Rights of Way and Permissive Access signage where necessary. **Please keep your dog on a lead near livestock.**


Nid yw'r holl lwybrau sydd i'w gweld ar y mapiau ar dir sy'n berchen i Cyfoeth Naturiol Cymru. Dilynwch arwyddion Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Llwybrau Cyhoeddus Caniataol os bydd angen. **Cadwch eich ci ar dennyn pan fyddwch chi wrth ymyl da byw.**




Atgynhyrchwyd â chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Llyfrfa ei Mawrhydi. © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2016. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100025498.

Reproduced by Permission of Ordnance Survey on behalf of HMSO. © Crown copyright and database right 2016. Ordnance Survey Licence number 100025498.






Parcio / Parking
Gwybodaeth / Information
Toiledau / Toilets
Mynediad Hawdd / Accessible
Caffi / Café
Safle Picnic / Picnic Site
Golygfan / Viewpoint
Coedardd / Arboretum
Beicio / Cycling
Tafarn / Pub
Play Area / Play Area
Llwybr Ceffylau / Bridleway
Nodweddion treftadaeth / Heritage Features
Llwybr Rhifedd / Numeracy Trail
Llwybr Clawdd Offa / Offa's Dyke Path



## COED MOEL FAMAU

### CYLCH TŴR JIWBILÎ

**Amser:** 2½ awr
**Pellter:** 3¼ milltir/5.5 km
**Gradd:** Cymedrol; dringfa serth, gyson i Foel Famau, ar 554m (1,818 troedfedd) y copa uchaf ym Mryniau Clwyd.
**Dringo:** 918 troedfedd/280m

**Uchafbwyntiau:** O Dŵr y Jiwbilî, a adeiladwyd yn 1810, mwynhewch un o olygfeydd mwyaf trawiadol Cymru.

Mae'r rhannau byr hyn yn ddewis amgen llai serth i'r prif lwybr.

### CYLCH MOEL FENLLI

**Amser:** 1 awr
**Pellter:** 1¼ milltir/2km
**Gradd:** Egnïol; dringfa serth ond byr i'r copa.
**Dringfa:** 623 troedfedd/190m

**Uchafbwyntiau:** Un o'r bryngaerau Oes Haearn mwyaf trawiadol ym Mryniau Clwyd.

## COED MOEL FAMAU

### JUBILEE TOWER CIRCULAR

**Time:** 2½ hours
**Distance:** 3¼ miles/5.5 km
**Grade:** Moderate; a steep, steady climb to Moel Famau, at 554m (1,818ft) the highest summit in the Clwydian Range.
**Climb:** 918ft/280m

**Highlights:** From the Jubilee Tower, built in 1810, enjoy one of the most spectacular views in Wales.

These short sections are less steep alternatives to the main route.

### MOEL FENLLI CIRCULAR

**Time:** 1 hour
**Distance:** 1¼ miles/2km
**Grade:** Strenuous; a short steep climb to the summit.
**Climb:** 623ft/190m

**Highlights:** One of the most impressive Iron Age hillforts in the Clwydian Range.

## CYLCH MYNYDD FFRITH

●●● 🚲

**Amser:** 5 awr
**Pellter:** 6¾ milltir/11km
**Gradd:** Egnïol; taith fywiog trwy dirluniau newidiol y goedwig.
**Dringfa:** 393 troedfedd/120m

**Uchafbwyntiau:** Golygfeydd panoramig i gerddwyr a beicwyr. I weld teithiau beicio eraill ewch i: **www.mbwales.com**

## FFRITH MOUNTAIN CIRCULAR

○○○ 🚲

**Time:** 5 hours
**Distance:** 6¾ miles/11km
**Grade:** Strenuous; an exhilarating walk through changing forest landscapes.
**Climb:** 393ft/120m

**Highlights:** Panoramic views for walkers and cyclists. For further rides visit: **www.mbwales.com**






**LOGGERHEADS - CYLCH MOEL FAMAU**

○○○

**Amser:** 4½ awr
**Pellter:** 6 milltir/10km
**Gradd:** Cymedrol; serth wrth ddychwelyd.
**Dringfa:** 524 troedfedd/160m

**Uchafbwyntiau:** Digon o amrywiaeth ar y llwybr hwn, trwy goedwigoedd a dros lechweddau agored. Mwynhewch y golygfeydd gwych.

**CYSWLLT LOGGERHEADS**

●●●

**Amser:** 2 awr
**Pellter:** 2½ milltir/4km
**Gradd:** Cymedrol; llwybr llinellol o Goed Moel Famau i Barc Gwledig Loggerheads.
**Dringfa:** 295 troedfedd/90m

**LOGGERHEADS – MOEL FAMAU CIRCULAR**

●●●

**Time:** 4½ hours
**Distance:** 6 miles/10km
**Grade:** Moderate; a steep return.
**Climb:** 524ft/160m

**Highlights:** Plenty of variety on this walk, through woods and over open hillside. Enjoy the great views.

**LOGGERHEADS LINK**

●●●

**Time:** 2 hours
**Distance:** 2½ miles/4km
**Grade:** Moderate; a linear route from Coed Moel Famau to Loggerheads Country Park.
**Climb:** 295ft/90m





### CYLCH LLARWYDD

●●●

**Amser:** 1 awr
**Pellter:** 1½ milltir/2.5km
**Gradd:** Hawdd; llwybr hamddenol trwy'r goedwig.
**Dringfa:** 360 troedfedd/110m

### LLWYBR TRACIWR

●●●

**Amser:** 45 munud
**Pellter:** ¾ milltir/1.5km
**Gradd:** Hawdd
**Dringfa:** 278 troedfedd/85m

**Uchafbwyntiau:** Dilynwch y llwybr ac edrychwch am gliwiau am y gwahanol anifeiliaid sy'n byw yn y goedwig. Perffaith i egin dditectifs anifeiliaid!

### LARCHES LOOP

●●●

**Time:** 1 hour
**Distance:** 1½ miles/2.5km
**Grade:** Easy; relaxing walk through the woods.
**Climb:** 360ft/110m

### TRACKER TRAIL

●●●

**Time:** 45 minutes
**Distance:** ¾ mile/1.5km
**Grade:** Easy
**Climb:** 278ft/85m

**Highlights:** Follow the trail and find clues about the different animals that live in the forest. Great for budding animal detectives!

## Llwybrau Eraill

**Llwybr Rhifedd:** 12 o weithgareddau i helpu plant i ddatblygu'u sgiliau mathemateg o fewn sefyllfaoedd ymarferol.

**Llwybr Hygyrch:** Llwybr gwastad, byr yn uniongyrchol o'r maes parcio trwy goetir deniadol.

**Llwybr Coedardd:** Edrychwch am rywogaethau coed Prydeinig brodorol ar lwybr byr trwy'r goedardd.

**Llwybr Clawdd Offa:** Mae rhai llwybrau yn defnyddio rhannau o'r Llwybr Cenedlaethol hwn. Am wybodaeth ewch i: **www.nationaltrail.co.uk/offasdyke**

Mae llwybrau mwy gwledig yn yr ardal i'w gweld yn: **www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/cymraeg/**








## Other Trails


**Numeracy Trail: 12 activities to help children develop their maths skills in practical situations.**

**Accessible Trail:** A short even-surfaced walk direct from the car park through attractive woodland.

**Arboretum Trail: Spot native British trees species on a short walk through the arboretum.**

**Offa's Dyke Path** Some walks use sections of this National Trail. For information go to: **www.nationaltrail.co.uk/offasdyke**

To find more rural walks in the area go to: **www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk**




## COED LLANGWYFAN

### CYLCH PENCLODDIAU

**Amser:** 2 awr
**Pellter:** 2½ milltir/4km
**Gradd:** Cymedrol; trwy'r goedwig gyda dringfa raddol i gopa agored Penycloddiau.
**Dringfa:** 508 troedfedd/155m

**Uchafbwyntiau:** Does ryfedd bod bryngaer Oes Haearn wedi'i hadeiladu ar y top - am le gwych i gadw golwg!

### CYLCH COED LLANGWYFAN

**Amser:** 1½ awr
**Pellter:** 1¾ milltir/3km
**Gradd:** Cymedrol; dringfa raddol sy'n dychwelyd trwy'r coed gyda golygfeydd gwych.
**Dringfa:** 278 troedfedd/85m

**Uchafbwyntiau:** Edrychwch am yr ystod anferth o wahanol gynefinoedd a rhywogaethau ar eich siwrnai.

## COED LLANGWYFAN

### PENCLODDIAU CIRCULAR

**Time:** 2 hours
**Distance:** 2½ miles/4km
**Grade:** Moderate; through the forest and then a gradual climb to the open summit of Penycloddiau.
**Climb:** 508ft/155m

**Highlights:** No wonder an Iron Age hillfort was built at the top - what a great look-out point!

### COED LLANGWYFAN CIRCULAR

**Time:** 1½ hours
**Distance:** 1¾ miles/3km
**Grade:** Moderate; a gradual descent and return through the woods with great views.
**Climb:** 278ft/85m

**Highlights:** Look out for the huge range of different habitats and species on your journey.





**CYLCH MOEL ARTHUR**

●●●

**Amser:** 2 awr
**Pellter:** 2½ milltir/4km
**Gradd:** Cymedrol; gyda dringfa serth i gopa Moel Arthur.
**Dringfa:** 558 troedfedd/170m

**Uchafbwyntiau:** Golygfeydd panoramig o'r fryngaer flaenllaw 2,500 oed.

**MOEL ARTHUR CIRCULAR**

○○○

**Time:** 2 hours
**Distance:** 2½ miles/4km
**Grade:** Moderate; with a steep climb to the summit of Moel Arthur.
**Climb:** 558ft/170m

**Highlights:** Panoramic views from the prominent 2,500 year-old hillfort.


© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2016.
Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100025498.
© Crown copyright and database right 2016.
Ordnance Survey Licence number 100025498.
Yr Wyddgrug
Mold
N
NORTH
Coed
Nercwys
Bryn Alyn
Mynydd
Nercwys
Mountain
Eryrys





## COED NERCWYS

### CYLCH COED NERCWYS

●●● 🚲

**Amser:** 2 awr
**Pellter:** 2¾ milltir/4.5km
**Gradd:** Cymedrol; llwybr pleserus trwy'r goedwig.
**Dringo:** 198 troedfedd/60m

**Uchafbwyntiau:** Nodweddion treftadaeth i'w darganfod wrth i chi gerdded, gan gynnwys adfeilion adeiladau mwyngloddiau plwm, bwthyn bugail a phadog â wal o'i gwmpas. Gall beicwyr ddefnyddio'r llwybr hwn. Mae gwybodaeth am lwybrau beicio pellach yn: **www.mbwales.com**

### CYSWLLT BRYN ALYN:

●●●

**Amser:** 1 awr
**Pellter:** 1½ milltir/2.6km
**Gradd:** Cymedrol; llwybr llinellol amrywiol i Fryn Alyn
**Dringo:** 558 troedfedd/170m

**Uchafbwyntiau:** Cewch weld yr ail galchbalmant mwyaf yng Nghymru a'r rhywogaethau anarferol y mae'n eu cynnal. Am ragor o fanylion am y llwybr hwn ewch i: **www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/cymraeg/**

## COED NERCWYS

### COED NERCWYS CIRCULAR

●●● 🚲

**Time:** 2 hours
**Distance:** 2¾ miles/4.5km
**Grade:** Moderate; a rewarding forest walk.
**Climb:** 198ft/60m

**Highlights:** Heritage features to discover as you walk, including ruined lead mine buildings, a shepherds cottage and a walled paddock. Cyclists can use this trail. For further rides visit: **www.mbwales.com**


### BRYN ALYN LINK:

○○○

**Time:** 1 hour
**Distance:** 1½ miles/2.6km
**Grade:** Moderate; a varied linear walk to Bryn Alyn
**Climb:** 558ft/170m

**Highlights:** See the second largest limestone pavement in Wales and the unusual species that it supports. For more details of this walk go to: **www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk**






## DYFFRYN DYFRDWY COED PEN-Y-PIGYN

### LLWYBR DAGR

●●●

**Amser:** 15 munud
**Pellter:** ¼ milltir/0.4km
**Gradd:** Cymedrol; dilynwch y llwybr cerdded i fyny o Gorwen tuag at Goed Pen-y-Pigyn a dilynwch y llwybr ag arwyddion ar gyfer y daith gylchol raddedig hon, wedi'i seilio ar siâp dagr Owain Glyndŵr.
**Dringfa:** 147 troedfedd/45m

**Uchafbwyntiau:** Ar eich ffordd i lawr, gallwch gymryd dargyfeiriad byr i gerrig yr Orsedd a stepiau cerrig sy'n rhydio'r nant fas.

## THE DEE VALLEY COED PEN-Y-PIGYN

### DAGGER TRAIL

○○○

**Time:** 15 minutes
**Distance:** ¼ mile/0.4km
**Grade:** Moderate; follow the footpath uphill from Corwen towards Coed Pen-y-Pigyn and take the signed path for this graded loop, based on the shape of Owain Glyndwr's dagger.
**Climb:** 147ft/45m

**Highlights:** On your return you can take a short detour to the Gorsedd stone circle and stone steps fording a shallow stream.



### GOLYGFA PEN-Y-PIGYN

**Amser:** 45 munud
**Pellter:** ½ milltir/0.8km
**Gradd:** Cymedrol; parhewch i fyny i gyrraedd heneb garreg sy'n coffáu priodas frenhinol.
**Dringfa:** 426 troedfedd/130m


**Uchafbwyntiau:** Mae'r ddringfa werth yr ymdrech, mwynhewch olygfeydd panoramig dros Gorwen a Dyffryn Dyfrdwy.

### PEN-Y-PIGYN VIEWPOINT

**Time:** 45 minutes
**Distance:** ½ mile/0.8km
**Grade:** Moderate; continue uphill to reach a stone monument commemorating a royal wedding.
**Climb:** 426ft/130m

**Highlights:** The climb is worth it, enjoy panoramic views over Corwen and the Dee valley.






## Sut i ddod o hyd i goedwigoedd Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

**Coed Moel Famau:** 5 milltir i'r de-orllewin o'r Wyddgrug oddi ar yr A494. Trowch wrth yr arwydd twristiaid brown. Cyf grid: SJ 170 612

**Coed Nercwys:** 3 milltir i'r de-orllewin o'r Wyddgrug oddi ar y B5444. O'r Wyddgrug, dilynwch yr arwyddion i Nercwys. Parhewch dros y gyffordd yn Nercwys ac ar ôl 1 milltir trowch i'r chwith i Ffordd Cae Newydd. Trowch wrth y troad cyntaf i'r dde a pharhau am 250m i'r maes parcio.
Cyf Grid: SJ 218 592

**Coed Llangwyfan:** 8 milltir i'r gogledd o Ruthun oddi ar y B5429. Trowch wrth y groesffordd yng nghanol Llandyrnog tuag at Langwyfan. Parhewch am ychydig tuag at ogledd pentref Llangwyfan i'r maes parcio ar dop y bryn.
Cyf Grid: SJ 139 668

**Coed Pen-y-Pigyn:** Gorwedd y llechwedd goediog serth hon y tu ôl i eglwys Corwen o'r 13eg ganrif. O'r prif faes parcio yn Lôn Werdd, ewch dros groesfan i gerddwyr yr A5 ac anelu i fyny Stryd y Felin, gyda thir eglwys Corwen ar yr ochr chwith. Dilynwch y llwybr cerdded wedi'i farcio i fyny'r bryn at Goed Pen-y-Pigyn. Cyf Grid: SJ 078 432





## How to find the forests of the Clwydian Range and Dee Valley

**Coed Moel Famau:** 5 miles south-west of Mold off the A494. Turn at brown tourist sign. Grid ref: SJ 170 612

**Coed Nercwys:** 3 miles south-west of Mold off the B5444. From Mold follow sign for Nercwys. Continue over the cross roads in Nercwys and after 1 mile turn left onto Ffordd Cae Newydd. Take first right turn and continue for 250m to the car park. Grid ref: SJ 218 592

**Coed Llangwyfan:** 8 miles north of Ruthin off the B5429. Turn at the crossroads in the centre of Llandyrnog to Llangwyfan. Continue a short distance north of the village of Llangwyfan to the car park at the top of the hill.
Grid ref: SJ 139 668

**Coed Pen-y-Pigyn:** This steep wooded hillside lies behind Corwen's 13th century church. From the main car park at Green Lane, go over the A5 pedestrian crossing and head straight up Mill Street, with the grounds of Corwen church on your left. Follow the marked footpath uphill to Coed Pen-y-Pigyn. Grid ref: SJ 078 432




**0300 065 3000**
**www.cyfoethnaturiol.cymru**
**www.naturalresources.wales**

NRWRC0037

Os hoffech chi'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol, rhowch wybod inni, os gwelwch yn dda:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000

If you would like this publication in a different format, please let us know:
enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
0300 065 3000

FSC® C115912 www.fsc.org
Arwydd o goedwigaeth gyfrifol
The mark of responsible forestry

Mae coedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®

Natural Resources Wales forests have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®

Argraffwyd ar bapur Cocoon offset wedi'i ailgylchu 100%

Printed on Cocoon offset 100% recycled paper